Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 10fed o Hydref 2018 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh.

Presennol: Y Cyng. Owen James (Cadeirydd), y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Robert Jones
Roger Phillips (Clerc Tref)
Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Gordon Kilby

Cof 174 / Hyd / 18 Datganiadau o Fuddiant. Dim.

Cof 175 / Hyd / 18 Doedd dim Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

Cof 176 / Hyd / 18 Penderfyniadau am Geisiadau Cynllunio

E/37369 Codi tŷ gwydr bach ar safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Fferm y Plas Dinefwr.

RHODDWYD.

Cof 177 / Hyd / 18 Doedd dim materion eraill yn ymwneud â chynllunio

Cof 178 / Hyd / 18 Adroddiad y Swyddog Technegol
Roedd y Swyddog Technegol wedi cyflwyno ei adroddiad ymlaen llaw. Yr oedd wedi ymweld â phob un o'r adeiladau y gosodir motiffau goleuadau Nadolig arnynt fel arfer, i ofyn am ganiatâd i'w codi eleni eto.

Cof 179 / Hyd / 18 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd
1. Cau ffordd yr A483, rhwng Ffairfach a Llandeilo.
   Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi gofyn am i arwyddion gael eu gosod ar gyffordd Stryd y Bont a Stryd Rhosmaen, ger yr Eglwys, i rwystro cerbydau rhag mynd ar hyd y bont.
2. Gohebiaeth gan CSG, ynghylch cyflwr gwael llwybr troed 69/1A/1 Glynceirch.
   Cadarnhaodd Martin Murray, Rheolwr Hawliau Tramwy, y byddai gwaith yn cael ei wneud i wella'r llwybr troed dros fisoedd y gaeaf.

Cof 180 / Hyd / 18 Gohebiaeth

1. Panel Adolygu Annibynnol mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned. Dosbarthodd y Clerc gopïau o'r argymhellion a wnaed gan y panel. Cynigodd y Cyng. Owen James bod y Cynghorwyr yn mynegi eu barn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Lesley Prosser. Roedd pawb o blaid.

Cof 181 / Hyd / 18 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.42yh.